

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 11.05.26 am 7.00pm, yn
Neuadd y Pensiynwyr, Gwalchmai. MINUTES OF MEETING HELD ON
11.05.26 at 7.00pm at the Pensioner Hall, Gwalchmai

	YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr S Jones, C Summers, Ann Williams, O Williams, H N Evans, A O'Callaghan, D Roberts, a nifer o aelodau'r cyhoedd.	PRESENT: Cllrs S Jones, C Summers, Ann Williams, O Williams, H N Evans, A O'Callaghan, D Roberts, and several members of the public.
1	Croeso ac ymddiheuriadau – Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd R Jones, Aled Williams, G Owen (Clerc) a D Fowlie (Cyngor Sir).	Welcome and apologies - There were apologies for absence from Cllr R Jones, Aled Williams, G Owen (Clerk) and D Fowlie (County Council).
2	Datgan Diddordeb - Dim	Declarations of Interest – None
3	Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf – Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 13.04.26 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyngorydd Ann Williams ac eiliwyd gan y Cyngorydd Neville Evans.	Acceptance of minutes of last monthly meeting – The minutes of the last meeting on 13.04.26 were accepted as a true record. Proposed by Cllr Ann Williams and seconded by Cllr Neville Evans.
4	Materion yn codi o'r cofnodion	Matters arising from the minutes
4.1	Mynwent St Morhaiarn – Nid yw'r Clerc wedi clywed dim pellach gan y Cyngor Sir. Awgrymwyd iddo anfon copi o'i Adroddiad Archaeoleg at berchennog y tir ac at Dr Keating.	St Morhaiarn Cemetery – The Clerk has not heard anything further from the County Council. It was suggested that he send a copy of the Archaeology Report to the owner of the land and to Dr Keating.
4.2	Loriâu'n goryrru – Mae'r broblem gyda goryrru yn parhau. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cyfeirio'r mater at y 3 Aelod Senedd newydd i ofyn am eu cymorth.	Speeding Lorries – The problem with speeding continues. It was agreed that the Clerk refer the matter to the 3 new Senedd Members asking for their help.
4.3	Taliadau Adran 106 – Mae'r Cyngorydd Fowlie yn gwneud ymholiadau pellach ynghylch y mater hwn.	Section 106 payments – Cllr Fowlie is making further enquiries regarding this matter.
4.4	Camfa (Gweithdy) – Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Heddlu i ofyn iddynt fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod.	Stile (Gweithdy) – The Clerk was asked to contact the Police to ask them to attend the next meeting to discuss.
4.5	Mynediad i Feddygfa Gwalchmai – Mae fforwm Mynediad i'r Anabl yn dal i aros am ymateb gan Feddygfa Gwalchmai.	Access to Gwalchmai Surgery – The Disability Access forum are still waiting for a response from Gwalchmai Surgery.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.06.26	Signature Chairman Date 08.06.26

4.6	Llwybr Carreg y Fran – Mae e-bost gan y Cyngor Sir yn datgan eu bod wedi gofyn i'r perchennog ofyn am ganiatâd i wyro'r llwybr. Os na fydd cais yna bydd ymweliad a rhybudd i'r perchennog.	Carreg y Fran path – An email from the County Council states that they have asked the owner to ask to be allowed to divert the route. If there is no request then there will be a visit and a warning to the owner.
4.7	Lefelau Pridd Crown St – Mae'r Cyngor Sir yn cadarnhau bod y datblygwyr wedi cysylltu â nhw i gadarnhau bod y gwaith perthnasol wedi'i wneud i'r polyn trydan hwn. Gan fod y mater hwn wedi'i ddatrys, gellir ei dynnu oddi ar yr agenda.	Soil Levels Crown St – The County Council confirm that the developers have contacted them to confirm that the relevant work has been done to this electricity pole. As this matter has been resolved it can be removed from the agenda.
4.8	Chwarel Gwalchmai – Mae'r Clerc wedi rhoi hysbysiad ar dudalen Facebook y cyngor yn nodi bod y chwarel yn hapus i roi rhybudd ymlaen llaw o rybudd ffrwydro i unrhyw un sy'n darparu eu manylion cyswllt i'r Clerc.	Gwalchmai Quarry – The Clerk has placed a notice on the council's Facebook page stating that the quarry are happy to provide advance notice of blasting warning to anyone who provides their contact details to the Clerk.
4.9	Gan Bwyll – Mae Cyng H N Evans wedi ysgrifennu I Comisiynydd yr Heddlu yn gofyn pam tydi Gwalchmai ddim ar y rhestr o leoliadau er gwaetha cael addewid y byddai yn cael ei gynnwys. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r senedd yn gofyn am eu help i geisio cael rheoli cyflymder y traffig	Go Safe – Cllr H N Evans has written to the Police Commissioner asking why Gwalchmai is not on the list of locations despite being promised that it would be included. The Clerk will contact the 3 senedd members asking for their help in trying to control the speed of the traffic.
4.10	Gofeb/Cloc, Gwalchmai – Mae trefniadau ar gyfer y gwasanaeth canmlwyddiant yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r Cynghorydd S Jones wedi cynnal asesiad risg. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch pryd y bydd y grant yn cael ei dalu gan y Cyngor Sir ac i drefnu cyfarfod is-bwyllgor.	Memorial/Clock, Gwalchmai – Arrangements for the centenary service are well under way. Cllr S Jones has conducted a risk assessment. The Clerk was asked to make enquiries as to when the grant will be paid by the County Council and to arrange a sub-committee meeting.
4.11	Palmantau (Gwalchmai Uchaf) – Mewn llaw	Pavements (Upper Gwalchmai) – In hand
4.12	Pant Gwalchmai - Dwr cymru wedi gorffen eu hasesiad ac yn dweud fod pob dim yn glir o ran y peipiau ayyb Dim diffygion o gwbl	Pant Gwalchmai – Dwr Cymru have completed their assessment and say that everything is clear regarding the pipes etc. No defects at all
4.13	Bioamrywiaeth – mewn llaw	Biodiversity Plan – In hand
4.14	Wal ger Tan y Bonc – mewn llaw	Wall near Tan y Bonc – in hand
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.06.26	Signature Chairman Date 08.06.26

4.15	Balchder yn eich cymuned – Mae Cyng S Jones am gofyn am amcangyfrifon am brosiectau gan Clwb Pel Droed, Canolfan yr Henoed a Parc chwarae y plant	Pride in the Community - Cllr S Jones will ask for estimates for projects from Football Club, Canolfan yr Henoed and Children's Play Park
5	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	Correspondence Anglesey County Council
	Cynllunio	Planning
5.1	Polyn trydan – gweler 4.7	Electric pole – see 4.7
	Priffyrdd	Highways
5.2	Castell Eden. Gwalchmai – Mae’r Gwaith wedi ei gwblhau	Castell Eden. Gwalchmai – The work is complete.
	Gwastraff	Waste
5.3	Gweithdy – gweler 4.4	Gweithdy – See 4.4
	Gohebiaeth Ychwanegol	Other Correspondence
	Dim	None
7	Materion Eraill	Other Matters
7.1	Goleuadau Traffig - gohirio tan y cyfarfod nesaf	Traffic Lights – Defer to next meeting
7.2	Slurry - Mae’r Cyngor Sir wedi ymweld a nodi nad oedd yn torri rholaeth.	Slurry – The County Council has visited and noted that they are not breaking the law.
8	Materion ariannol	Financial Matters
8.1	Chwarter gwirio cyllid yn gorffen 31.03.26. Mewn llaw.	Finance check quarter ending 31.03.26. In hand.
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:	It was agreed to pay the following:
8.2	Yswiriant Zurich £294.62	Zurich Insurance £294.62
8.3	Humphreys Waste (Inv 41350) £48.00	Humphreys Waste (Inv 41350) £48.00
8.4	Cambrian Planning £1175.00	Cambrian Planning £1175.00
8.5	Gareth Aubrey (y Fynwent Newydd) £250.00	Gareth Aubrey (new cemetery) £250.00
8.6	Salisbury Accountants £264.00	Salisbury Accountants £264.00
9	Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf	Matters for the next meeting
9.1	Dim	None
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.06.26	Signature Chairman Date 08.06.26